

CYFLWYNIAD

Ar un adeg roedd y baedd gwyllt (*Sus scrofa*) yn anifail cynhenid i'r DU, ond darfu o'r tir yn yr 17eg ganrif. Bu galw cynyddol am gig baedd gwyllt yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chynnydd yn sgil hynny yn nifer y baeddod gwyllt sy'n cael eu ffermio.

GOFYNIION FFISEGOL

Coetir yw cynefin naturiol y baedd gwyllt ac mae'r cynefin ffermio gorau, o ran lles ac ansawdd y cig, yn ail-greu cynefin gwyllt y baedd cyn belled ag y bo modd. Yn ddelfrydol, dylai fod rhywfaint o dir coediog ar gael i faeddod gwyllt sy'n cael eu ffermio, er y gellir eu magu mewn caeau. Fel arfer dyfynnir cyfraddau stocio enwol o 6 hwch / ha, ond mae angen cyfradd stocio effeithiol is i ganiatáu stocio cylchdro ac er mwyn rhoi cyfle i goedlannau a llystyfiant y bydd moch wedi eu troi adfywio.

Ffensys – rhaid codi ffens o leiaf 1.8 m o uchder o gwmpas y terfyn cyfan. Dylai'r ffens fod wedi'i chladdu hefyd o leiaf 30cm o dan y ddaear rhag iddynt ei chodi drwy gloddio. Disgwyliwch dalu oddeutu £8/m am ddeunydd ffensio. Rydym hefyd yn cynghori cael dau raffyn o ffens drydan yn ychwanegol at y ffens sefydlog i atal y moch rhag cloddio wrth ymyl y ffens sefydlog. Gall ffensys mewnol i helpu gyda stocio cylchdro fod yn 1.1m, cynghorir defnyddio weirs trydan hefyd fel arf ataliol.

Cyfradd stocio – 6 hwch / ha.

Rhaid i ddŵr ffens fod ar gael drwy'r amser.

STOCIO

Gellir cychwyn gyr o foch o'r cwr trwy brynu banwesi ifanc nad ydynt wedi cael baedd a baedd, hychod torrog neu hychod eraill sy'n cael eu gwaredu o genfaint arall. Cymerwch ofal wrth brynu stoc sy'n cael ei waredu, a gwnewch yn siŵr fod yna resymau dilys dros fod eisio cael gwared arnynt. Mynnwch brynu stoc iach bob amser. Pris banwesi heb gael baedd yw tua £350 i £450 / y pen; mae hychod torrog yn nes i £600. Mae baeddod yn eu llawn dwf yn costio tua £600.

RHEOLI

Mae baeddod gwyllt yn eu llawn dwf yn fawr (hyd at 1.8m o ran hyd, yn pwysu tua 200kg) ac yn gryf, a rhaid bod yn ofalus bob amser wrth weithio gyda nhw. Nid yw baeddod gwyllt yn anifeiliaid arbennig o ymosodol. Er hynny, maen nhw'n ofnus ac yn wylriadwrus. Bydd hychod yn amddiffyn eu rhai bach, ac mae baeddod yn gallu bod yn diriogaethol, yn arbennig yn yr hydref pan fydd y tymor rhidio ar ei anterth.

Mae baeddod gwyllt benywaidd yn greaduriaid cymdeithasol sy'n hoffi byw mewn grwpiau (a elwir yn genfeiniau weithiau). Wrth reoli'r gyr, trefnwch i gael yr hychod mewn grwpiau o chwech i 10 hwch. Y gymhareb baedd i hwch yw un baedd i uchafswm o 10 hwch fel arfer. Ac eithrio'r tymor rhidio, bydd y baeddod yn treulio'u hamser ar eu pen eu hunain.

Er mai creaduriaid y nos yw'r rhain yn bennaf, mae'n syniad da sefydlu amser rheolaidd yn ystod golau dydd i roi bywyd ychwanegol (gweler isod). Fel arfer bydd y baeddod yn dod i arfer â hyn ac mae'n gyfle delfrydol i gadw golwg arnynt.

MAGU

Mae baeddod gwyllt yn magu yn ôl y tymor. Mae dyddiau byrrach yr hydref, yn codi i uchafbwynt yn Hydref/Tachwedd yn ysgogi cynhyrchu mwy o destosteron yn y baedd. 21 diwrnod yw cylch estrws yr hychod ac mae'n ymestyn o tua fis Medi i fis Mehefin.

115 o ddyddiau yw'r cyfnod cario, ac felly dylai fod yn bosib cael tair torllwyth mewn 2 flynedd, ond gallai fod yn anodd llwyddo i wneud hyn yn ymarferol.

Mae baeddod gwyllt yn geni heb gymorth. Byddant yn cefnu ar y genfaint tua dau ddiwrnod cyn geni ac os oes deunyddiau ar



Ffig 1: Baedd gwyllt yn ei lawn dwf



Ffig 2: Baeddod gwyllt ifanc – sylwch ar y streipiau nodweddiadol

gael, ânt ati i adeiladu nyth arbennig ar gyfer geni eu moch (crochan). Fel arall gellir darparu eirch ar gyfer geni moch. Caiff y baeddod bach eu geni'n ddiraffferth fel arfer.

Bydd maint y dorllwyth yn cynyddu wrth i'r hychod aeddfedu: mae'n bosib mai dim ond dau neu dri o faeddod bach a geir yn y dorllwyth gyntaf; bydd hychod yn eu llawn dwf yn cynhyrchu chwech neu wyth o faeddod bach ym mhob torllwyth.

BWYDO

Wrth fyw yn y gwyllt, deunydd llysiuol yw'r rhan fwyaf o ddeiet y baedd gwyllt, ynghyd â ffrwythau ac anifeiliaid bach (mwydod, chwilod, madfallod). Mewn systemau ffermio, dylai'r deiet hefyd gynnwys cryn lawer o ddeunydd sy'n llysiu a geir un ai wrth dwrio a thyrchu yn y goedlan, neu, os nad yw hyn yn ddigonol, trwy fwyd llysiu a brynr i mewn (DS mae rhoi gwastraff arlwyo'n fwyd yn anghyfreithlon ers yr achos o Glwy'r Traed a'r Genau yn 2001). Dylid rhoi bwyd moch sail-grawn ychwanegol i sicrhau maeth digonol a chynhyrchiant: caniatewch hyd at 3kg i bob hwch bob dydd.

Caiff y baeddod bach eu diddyfnu'n wyth i 14 wythnos oed ar ddeiet o ddeunydd llysiu *ad lib* gyda dognau tyfu dwys (yn codi i tua 1kg y pen y dydd erbyn eu bod yn barod).

Fel arfer caiff baeddod gwyllt eu lladd pan maent tua 80kg – 90kg pwysau byw sy'n cyfateb i tua naw i 12 mis oed. Pwysau'r carcass fydd tua 50kg – 55kg (oddeutu 60% o ladd allan).

IECHYD

Mae baeddod gwyllt yn gryfion ar y cyfan ac nid ydynt fel arfer yn dioddef o salwch. Er hynny, maent yn tueddu i gael a/neu gario yr un clefydau ag sy'n effeithio ar foch domestig. Mae poblogaethau o foch gwyllt a baeddod gwyllt gwylltion allai heintio stoc hefyd. Dyma reswm arall dros ofalu fod ffens derfyn ddiogel o gwmpas y lle.

Mae'n well cael cenfaint gaeedig lle bo hynny'n bosibl. Os bydd stoc newydd yn cael eu dwyn i mewn, dylid cadw at y mesurau rhagofal arferol sef ynysu a chadw golwg cyn integreiddio gyda'r genfaint.

DEDDFWRIAETH

Mae'r ddeddfwriaeth ar reoli anifeiliaid yn llym ac yn gymhleth. Canllawiau sylfaenol yn unig a geir yma a dylid bob amser geisio gwybodaeth a chynghor cynhwysfawr gan eich Swyddfa Iechyd Anifeiliaid Ranbarthol, Awdurdod Lleol neu awdurdod cymwys arall. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i foch yn berthnasol i faeddod gwyllt.

Dosberthir baeddod gwyllt fel anifeiliaid peryglus o dan delerau **Deddf Anifeiliaid Gwylltion Peryglus** (1979; 1984), rhaid cael trwydded gan yr awdurdod lleol. Mae peidio â gwneud hynny'n drosedd. Rhaid adnewyddu'r drwydded bob blwyddyn.

Cofrestru daliad – rhaid cofrestru pob daliad lle cedwir moch gyda Defra trwy eich Swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol. Os nad oes gennych eisoes rhif Daliad Plwyf Sirol (CPH) rhaid i chi wneud cais am un cyn dod â moch i'r eiddo.

Symud – mae angen trwydded i symud baedd, ac unwaith y dewch ag anifail newydd i'r fferm, ni chaniateir symud moch wedyn am 20 diwrnod.

Adnabod – mae angen rhoi marc parhaol ar foch dros 12 mis oed; gellir symud moch sydd o dan 12 mis oed rhwng daliadau ar farc dros dro. Mae angen tagiau clust ar foch sy'n mynd i gael eu lladd.

REFENIW

Mae'r ffigurau sy'n cael eu dyfynnu ar gyfer yr elw sy'n bosib trwy gynhyrchu baedd gwyllt yn amrywio'n fawr. Bydd llawer yn dibynnu ar y costau cychwyn yn y lle cyntaf (yn arbennig ffensys) a'r marchnadoedd y gwerthir y cig iddynt. Dylai rhwng £400 a £500 yr hwch y flwyddyn fod yn realistig. Gallai llwyddo i gael tair torllwyth bob dwy flynedd gynyddu'r elw 50%. Gall prosesu ar y fferm (darnau cig, pecynnau cig stiwi, selsig ac ati) a/neu werthu'n syth i allfeydd arlwygo ansawdd uchel ychwanegu gwerth sylweddol.

Mae cig baedd gwyllt yn cael ei hyrwyddo fel cig iach. Mae'n cynnwys llawer o brotein a mwynau, ac mae'n isel mewn braster a cholesterol. Mae blas helgig arbennig arno.

CROESFRIDIO

Mae baeddod gwyllt a moch dof yn gallu croesfridio. Mae ffermio'r croesryw yma'n fenter arall sydd ar gynydd. Ond rhaid i gynhyrchwyr fod yn ymwybodol ei bod yn drosedd o dan y Ddeddf Disgrifiadau Masnach i farchnata cig moch wedi'u croesfridio fel baedd gwyllt. Ni cheir blas arbennig cig baedd gwyllt ar gig moch wedi'u croesfridio.

GWYBODAETH BELLACH

Mae tudalen fforwm ar wefan y Baedd Gwyllt Prydeinig(www.britishwildboar.org.uk) ble gellir hysbysybeu stoc ar werth a stoc yn eisiau. Mae'n cynnwys stôr o wybodaeth gyffredinol hefyd am y baedd gwyllt.